Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall,
Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru

27 Medi 2019

Cyllid y GIG a staff asiantaeth

Annwyl Andrew,

Diolch i chi am fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 15 Gorffennaf 2019 i drafod cyllid y GIG a staff asiantaeth, ac am y wybodaeth a'r ymatebion ychwanegol a ddarparwyd yn eich llythyrau dyddiedig 5 Awst ac 20 Awst 2019.

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw pedwar bwrdd iechyd yn gyson wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol statudol i adennill costau dros gyfnod o dair blynedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod tri o'r pedwar bwrdd iechyd hyn wedi gwella eu sefyllfa ariannol o gymharu â'r llynedd, a'u bod wedi nodi diffygion llai yn ystod y flwyddyn. Dirywiodd sefyllfa gyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr unwaith eto, gan gofnodi diffyg yn ystod y flwyddyn o £41.3 miliwn ar gyfer 2018-19.

Rydym yn nodi optimistiaeth Llywodraeth Cymru yn ei huchelgais y bydd unrhyw ddiffyg GIG gweddilliol yn 2019-20 yn cael ei reoli o fewn prif grŵp gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a'r disgwyliad y caiff pob diffyg ei ddileu erbyn 2020-21.

Fodd bynnag, mae gennym amheuon ynghylch yr olaf, o ystyried yr heriau hirdymor sylweddol sydd ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr.

Felly bydd y Pwyllgor yn cadw gwyliadwraeth ar gynnydd wrth i Lywodraeth Cymru wireddu ei huchelgais, ac rydym yn bwriadu ailedrych ar bwnc cyllid y GIG yn fwy

cyffredinol, ochr yn ochr â chostau staff asiantaeth y GIG, yn ystod haf 2020. Ar yr adeg hon byddwn yn gwahodd y byrddau iechyd sy'n weddill, nad ydym wedi clywed tystiolaeth ganddynt yn ystod ein gwaith craffu ar gyllid y GIG, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, er, er gwaethaf rhywfaint o sylw i faterion ariannol fel rhan o'n gwaith ehangach Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Byddwn, fodd bynnag, yn ceisio ystyried y materion hyn yn gynt, neu byddwn am siarad â Byrddau Iechyd eraill pe na bai taflwybr cyllid y GIG yn nodi'r gwelliant a ragwelir, neu bod materion sy'n peri pryder yn codi gydag unrhyw fyrddau iechyd penodol.

Yn gywir,

Nick Ramsay AM
Chair